# DYLAN THOMAS
BARDD ROC A RÔL - CA2

| | |
|---|---|
| Teitl y gweithgaredd: | Gwasanaeth i'r Ysgol Gyfan (CA2) |
| Disgrifiad: | Dylan Thomas a Chymreictod, ymdeimlad o hunaniaeth. |
| Blynyddoedd ysgol: | Ysgol gyfan |
| Testun Dylan Thomas | Dim un penodol |
| Offer angenrheidiol: | • Dyfyniad Dylan Thomas<br>• Cyflwyniad PowerPoint gyda lluniau |
| Trefn a awgrymir: | • Cafodd Dylan Thomas ei eni a'i fagu yn Abertawe ond treuliodd dipyn o'i fywyd yng Nghei Newydd a Thalacharn, yng ngorllewin Cymru. Ysbrydolodd y lleoliadau hyn ef i ysgrifennu ei gerddi a'i ddramâu gorau. Mae Cymru a Chymreictod yn amlwg yn y rhan fwyaf o'i waith. Roedd yn falch iawn o'i wreiddiau.<br>• Meddai am Abertawe, *"... an ugly, lovely town ... crawling, sprawling ... by the side of a long and splendid curving shore. This sea-town was my world."*<br>• Mae gennym air arbennig yn Gymraeg, 'Hiraeth' Mae'n air sy'n anodd iawn ei gyfieithu i'r Saesneg. Ystyr hiraeth, yn ôl Geiriadur Cynradd Gomer, yw 'teimlad o dristwch wrth weld eisiau rhywun neu rywbeth'. Yn aml iawn, mae hiraeth ar bobl sy'n gadael Cymru am y wlad hon. "Beth rydych chi'n ei gysylltu â bod yn Gymro neu Gymraes?" Gofynnwch i'r plant am syniadau. Roedd Dylan Thomas yn falch o fod yn Gymro a gallwn gasglu hynny o'r anwyldeb mae'n ei deimlo tuag at ei famwlad yn ei waith.<br>• Pam dylen ni fod yn falch o fod yn Gymry? Defnyddiwch y cyflwyniad i sbarduno trafodaeth. |
| Gweithgareddau estyn: | Edrych yn fanylach ar Ddydd Gŵyl Dewi fel ffordd o ddathlu Cymru - gweler isod. |
| Cysylltiadau perthnasol: | Cysylltiad crefyddol: Dathlu Cymru - Roedd Dewi Sant yn rhywun pwysig iawn i'r Cymry, ac mae hynny'n dal i fod yn wir heddiw. Dydd Gŵyl Dewi a stori Dewi Sant<br>Meddai Dewi Sant ychydig cyn iddo farw:<br>*Byddwch lawen a chedwch eich ffydd a'ch cred. Gwnewch y pethau bychain a welsoch ac a glywsoch gennyf fi.* |
| Gweddi: | O Dduw,<br>Diolch i Ti am ein helpu i werthfawrogi'r wlad hyfryd hon rydyn ni'n byw ynddi. Mae gennym bob un gymaint o roddion i'w rhoi ac mae gan bob un ohonom amrywiaeth wahanol o roddion sy'n unigryw i ni. Helpa ni bob amser i fod yn falch o'n gwreiddiau a'r man rydyn ni'n dod ohono. Boed inni ddangos y balchder hwnnw i'r bobl rydyn ni'n cwrdd â nhw.<br>Amen. |

* *Mae'r gwasanaethau yma yn addas ar gyfer eu defnyddio mewn gwersi hefyd*